

Nodiadau cyfarfod

Teitl y cyfarfod:	Fforwm Rheoli Dŵr Cymru
Lleoliad:	Rhithwir trwy gyfrwng MS Teams
Dyddiad y cyfarfod:	14 Mawrth 2024
Hefyd yn bresennol:	Natalie Hall (Cadeirydd) Ceri Jones (CNC) Ruth Johnston (CNC) Tony Harrington (Dŵr Cymru) Richard Blackwell (Water Resources West (WRW) ar gyfer United Utilities) Jill Howells (CNC) Inoka Manatunga (CNC) Elaine Harrison (Confor) Lia Murphy (Ofwat) Gail Davies-Walsh (cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru – Afonydd Cymru) Elizabeth Franks (Hafren Dyfrdwy) Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant) James Dowling (Llywodraeth Cymru) Laura Moss (Arolygiaeth Dŵr Yfed) Sharon Elwood (Dŵr Cymru) Kate Snow (United Utilities) Craig Smith (Awdurdod Glo)
Ymddiheuriadau:	Steve Omerod (Cadeirydd), Ruth Jenkins, Rachel Lewis-Davies, Gareth Parry, Adrian Jones, Phil Stone
Ysgrifenyddiaeth:	Ceri Jones

Eitem 1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau – Natalie Hall (CNC, yn gweithredu fel cadeirydd ar ran yr Athro Steve Ormerod)

Fel cadeirydd y sesiwn hon, agorodd Natalie Hall (CNC) y cyfarfod, gan nodi'r logisteg ar gyfer cynnal y fforwm rhithwir.

Rhannwyd y sesiwn yn sesiwn fforwm ehangach ar waith adolygu monitro ansawdd dŵr CNC ac yna canolbwyntiwyd ar waith penodol Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

Eitem 2 Sesiwn fforwm ehangach –

Adolygiad monitro ansawdd dŵr CNC (Luke Tyler, CNC)

Arweiniwyd y sesiwn gan Luke Tyler ac fe'i cynlluniwyd fel sesiwn ryngweithiol i gael amcan o awgrymiadau'r aelodau. Mae'r adolygiad monitro ansawdd dŵr yn brosiect CNC mewnol sy'n edrych ar y gwaith monitro ansawdd dŵr y mae CNC yn ei wneud a chyfeiriad y rhaglen hon yn y dyfodol. Rhannwyd y broses adolygu a gwahanol fathau o fonitro ac fe'u cynhwyswyd yn y pecyn sleidiau ategol.

Mae monitro dŵr gan CNC yn rhwymedigaeth reoleiddiol, ac mae hyn yn cynnwys bodloni gofynion Rheoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr. Mae CNC yn cynnal ei raglen fonitro i gefnogi'r dibenion hyn. Bydd dull tebyg ar gyfer cemegau yn cael ei ddatblygu, gan gynnwys monitro yn seiliedig ar risg ar gyfer llygryddion cemegol sy'n dod i'r amlwg. Mae mathau newydd o arloesi a dulliau y gellir eu defnyddio fel rhan o fonitro yn cael eu harchwilio. Mae rhannu allbynnau'r adolygiad hwn ac ymgorffori adborth a chynnal cyfweiliadau a chyfarfodydd un i un gyda rhanddeiliaid allweddol yn rhan o'r broses. Ymhen blwyddyn, bydd yn cael ei ymgorffori yn raddol, a bydd newidiadau'n cael eu gweithredu ym maes monitro yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad.

Mae'r tîm arwain yn croesawu pawb i ystyried y cwestiwn am beth sydd fwyaf pwysig i bawb, gan ystyried eu diddordebau a'u blaenoriaethau eu hunain. Cynhelir monitro at ddibenion gwahanol gydag adnoddau penodol. Mae'n bwysig pennu sut mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio a pha mor effeithiol y cânt eu defnyddio a lle mae'r blaenoriaethau.

Mae'r tîm arwain yn gofyn y cwestiynau canlynol i'r fforwm eu hystyried:

- Beth sydd mwyaf pwysig o'r monitro?
- Beth yw'r disgwyliadau?
- Beth ddylai'r ffocws fod?

Fel camau nesaf, bydd y tîm arwain yn ailymweld â'r grŵp a rhoi'r newyddion diweddaraf ar y prosiect a'r datblygiadau. Trafodir cynnydd, canfyddiadau, a pha opsiynau a ddatblygwyd. Hefyd, sut y defnyddiwyd yr adborth o ymatebion y grŵp a sut y lluniodd hyn y dull gweithredu.

Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn 2024 a disgwylir i'r cynllun gweithredu ar gyfer hyn gychwyn ar ddechrau 2025.

CAM GWEITHREDU: Y tîm arwain i rannu'r opsiynau sydd wedi'u dewis ar gyfer y rhaglen monitro ansawdd dŵr, gan gynnwys sut mae adborth o'r sesiwn hon wedi'i ddefnyddio i lywio dull gweithredu terfynol CNC

Eitem 3 Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn unig

Cytuno ar y nodiadau cyfarfod ac adolygu camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf (Natalie Hall, Cadeirydd, CNC)

Cytunwyd ar gofnodion y sesiwn flaenorol, gan ychwanegu enw Dennis Matheson fel un o'r mynychwyr. Bydd y rhain yn cael eu cyfieithu a byddant ar gael ar [dudalen we Fforwm Rheoli Dŵr Cymru](#).

Aeth CJ drwy'r cofnod o gamau gweithredu a grëwyd i gefnogi gwaith Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (mae hwn yn nodi camau gweithredu'r fforwm yn hytrach na chamau gweithredu sefydliadau unigol). Yn y dyfodol, bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r sesiynau.

Roedd y camau gweithredu wedi'u cwblhau. Roedd un cam gweithredu newydd, sef trefnu sesiwn ddilynol yn dilyn y sesiwn fforwm ehangach ar ddiasinon a gynhaliwyd ym mis Ionawr.

CAM GWEITHREDU: CJ i fynd ar drywydd camau nesaf ysgrifenyddiaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru yn dilyn y sesiwn ar ddiasinon

Eitem 4 Cyfraniadau'r aelodau a phapur diweddarau – pawb

Diweddariad Hafren Dyfrdwy ar PR24 (Liz Franks, Hafren Dyfrdwy)

Yn dilyn diweddariad PR24 Dŵr Cymru yn y sesiwn flaenorol, rhoddodd LF drosolwg o'r hyn y mae Hafren Dyfrdwy wedi'i gyflwyno i Ofwat a'r hyn a gynigir ar gyfer cynllun 2025/2030. Mae rhai misoedd wedi mynd heibio ers cyflwyno'r cynlluniau a dylai fod penderfyniad drafft ymhen ychydig fisoedd.

Mae Hafren Dyfrdwy yn cynnwys Wrecsam a gogledd Powys. Mae pwyntiau allweddol y cyflwyniad i'w gweld yn y sleidiau sydd wedi'u rhannu â Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

Blaenoriaeth y cynllun rheoli asedau ar hyn o bryd yw parhau i gyflawni'r rhaglen, gan gydnabod bod yna gyfyngiad ar adnoddau. Mae ffocws yn parhau ar welliant a chyflawni ar gyfer y cwsmeriaid. Wrth i'r boblogaeth dyfu yng Nghymru, mae angen i'r rhaglen sicrhau ei bod yn gwasanaethu'r ardal y mae'n ei chwmpasu, gan gydnabod yr heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a'r angen i addasu prosesau yn unol â hynny i warchod yr amgylchedd. Dylid cydnabod hefyd anghenion ac amgylchiadau newidiol cwsmeriaid.

Mae £250 miliwn o bunnoedd i'w fuddsoddi dros y pum mlynedd nesaf. Mae hwn yn gam sylweddol i fyny o fuddsoddiad PR19. O safbwynt cyflenwad dŵr gwarantedig yn y dyfodol, mae pwysau parhaus ar ollyngiadau, sy'n flaenoriaeth sylweddol i gwsmeriaid.

Dyma'r penawdau ym maes rheoli prisiau dŵr:

- Gwydnwch y rhwydwaith
- Diogelwch cronfeydd dŵr
- Seiberddiogelwch

- Bioamrywiaeth
- Sero net – mesuryddion dŵr clyfar ac effeithlonrwydd dŵr
- Allyriadau
- Rheoli dalgylch – gwella gwydnwch a lleihau cost triniaeth

Mae llawer o gyfleoedd i gydweithredu â chyd-aelodau'r fforwm.

CAM GWEITHREDU: LF i rannu'r cyflwyniad gyda Lia Murphy

Cynllun Rheoli Basn Afon (Ceri Jones, CNC)

Roedd cam gweithredu wedi'i wneud yn y cyfarfod diwethaf i gynnwys sesiwn reolaidd yn Fforwm Rheoli Dŵr Cymru i ganolbwyntio ar waith y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd – gweithredu'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd presennol ynghyd â'r gwaith cynllunio ar gyfer y diweddariad arfaethedig nesaf yn 2027. Rhannwyd papur (Papur 2 – Diweddariad ar gynnydd y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd) cyn y cyfarfod er mwyn galluogi aelodau i baratoi ar gyfer unrhyw bwyntiau trafod a chyfraniadau. Pwrpas y gwaith hwn yw gwella sut mae Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn cydweithio ac yn gweithredu ar y cyd ar gyfer rhaglen y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd.

CAM GWEITHREDU: PAWB – mae'r papur yn cynnwys y camau nesaf a chwestiynau i'r fforwm eu hystyried. Gofynnir i aelodau ystyried y rhain ac anfon unrhyw adborth at CJ

Ar adeg y cyfarfod, roedd CNC yn cwblhau ei adroddiad corfforaethol mewnol sy'n edrych ar y cynnydd o ran cyflawni'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd presennol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei rannu ym mhapur nesaf Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen newydd ar gyfer y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, sy'n cael ei sefydlu i gefnogi Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Nid yw olrhain cynnydd yn cynnwys dadansoddiad graddfa gyfan o'r manylion yn y Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, a gwneir hyn ar gyfer pob diweddariad o'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd, a gwblheir bob chwe blynedd. Mae'r adolygiad presennol hwn yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad teithio ymlaen i 2027 a bydd hefyd yn cefnogi meddwl am y diweddariadau gofynnol ar gyfer Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd 2027. Gofynnwyd i'r aelodau rannu unrhyw enghreifftiau da o'u rhwydweithiau rhanddeiliaid presennol i ddangos cynnydd a allai fod yn ddefnyddiol i'w ddefnyddio fel model ar gyfer y gwaith hwn.

CAM GWEITHREDU: Pawb i rannu unrhyw enghreifftiau da o adroddiadau cynnydd a allai lywio'r dull gweithredu at waith adolygu adroddiadau'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

Roedd y papur yn amlinellu'r amserlen a'r dull gweithredu ar gyfer adroddiad adolygiad cynnydd 2025, sy'n ofynnol gan Reoliadau'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ac mae cyhoeddi'r adroddiad hwn yn ofyniad deddfwriaethol ac yn sy'n parhau ar ôl Brexit. Bydd hwn yn cael ei rannu gyda'r fforwm er mwyn i arbenigedd a gwybodaeth yr aelodau gael eu bwydo i mewn iddo. Yn flaenorol, Ewrop sydd wedi llywio'r gwaith hwn gyda'u canllawiau a'u disgwyliadau, ond, y tro hwn, o dan y ddeddfwriaeth bresennol, mater i CNC yw cyhoeddi adroddiad yr adolygiad mewn fformat sy'n briodol ym marn CNC. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi lefel y manylder sydd ei hangen. Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod elfen drawsffiniol sylweddol. Mae CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y gofynion trawsffiniol.

Rhannwyd yr amserlen arfaethedig ar gyfer y bedwaredd gylchred o Gynlluniau Rheoli Basnau Afonydd wedi'u diweddarau yn y papur a'r ymgynghoriad cyntaf, sef Gweithio Gyda'n Gilydd, a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2024. Mae'r amserlen gyffredinol a'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer pedwaredd gylch CNC ar hyn o bryd yn alinio ag Asiantaeth yr Amgylchedd a bydd y ddau sefydliad yn ymdrechu i gadw mewn aliniad.

Rhannwyd drafft o'r ddolen brawf i 'Citizen Space Gweithio Gyda'n Gilydd' gyda'r fforwm i ymgysylltu ag aelodau a gwahodd unrhyw syniadau ac awgrymiadau cyn i'r gwaith hwn fynd yn fyw ym mis Mehefin ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol.

Rhagolwg a chyfraniadau aelodau

Rhannodd Water Resources West ddiweddariad ysgrifenedig i gefnogi Fforwm Rheoli Dŵr Cymru. Gwahoddwyd yr holl aelodau i rannu unrhyw gyfraniadau ychwanegol. Roedd diddordeb yn y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig ac awgrymwyd ychwanegu hyn at y rhagolwg ar gyfer y sesiwn.

Eitem 5 Dŵr daear yng Nghymru (Dave Jones, Kay Roberts, Ian Jones, CNC)

Darparodd Tîm Dŵr Daear CNC gyflwyniad addysgiadol a diddorol ar y gwaith dŵr daear ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Dŵr daear yng Nghymru
- Rôl CNC wrth reoli a diogelu dŵr daear
- Tystiolaeth a gasglwyd o rwydweithiau monitro
- Blaenoriaethau ar gyfer dŵr daear yn y dyfodol

Roedd sleidiau ar gael i aelodau Fforwm Rheoli Dŵr Cymru ac roeddent yn cynnwys dolenni i ddod o hyd i ragor o wybodaeth am gefndir hydroleg Cymru os oedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn mwy o fanylion.

Yng Nghymru, mae llai na 5% o'r cyflenwad dŵr cyhoeddus yn dod o ddŵr daear ond yn Ne-ddwyrain Lloegr mae'r ffigwr yn uwch na 70%. Mae'n ffynhonnell bwysig o ddŵr i eiddo gwledig sydd i ffwrdd o'r prif gyflenwad ac mae'n arbennig o agored i lygredd a newid hinsawdd. Lle mae dŵr daear wedi'i effeithio gan lygredd, mae'n anodd iawn ac yn ddrud i'w adfer.

Mae strategaeth trwydded tynnu dŵr, a elwir hefyd yn strategaethau rheoli tynnu dŵr dalgylch (CAMS), yn rheoleiddio faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu o'r amgylchedd ac yn sicrhau nad oes gormod o ddŵr yn cael ei gymryd o'r amgylchedd, ac yn sicrhau lefelau dŵr cynaliadwy mewn afonydd a llynnoedd, sy'n hanfodol i'n hamgylchedd naturiol. Mae cyfriflyfrau Rheoli Asesu Adnoddau (RAM), i bennu statws argaeledd dŵr, yn eu lle ar gyfer ardaloedd strategaethau rheoli tynnu dŵr dalgylch er mwyn sicrhau nad oes gor-drwyddedu na gor-dynnu a bod dŵr ar gael i bawb.

Yng Nghymru, mae 38 o gyrff dŵr daear. Mae'r rhwydwaith monitro yn cynnwys 130 o bwyntiau ledled Cymru, wedi'u lleoli mewn amrywiaeth o ddaearegau. Y twll turio dyfnaf yw 220m, ond dyfnder cyfartalog twll turio yw 50m. Mae mwyafrif y tyllau turio wedi cael eu drilio gan CNC neu ragflaenyddion. Mae'r gwaith hwn yn gysylltiedig â'r gwaith adolygu

monitro ansawdd dŵr yr oedd Luke Tyle wedi'i gyflwyno'n gynharach i sicrhau'r cysylltiad rhwng dŵr wyneb a dŵr daear.

Mae ansawdd dŵr daear da yn bwysig i'r amgylchedd, natur a phobl.

Dyma'r ffocws ar gyfer y blynyddoedd i ddod:

- Monitro adolygu - sicrhau bod CNC yn chwilio am y pethau iawn yn y lleoliad cywir
- Edrych ar dir bas a dŵr wyneb
- Sicrhau bod gan CNC y gallu a'r capasiti i fonitro halogion sy'n dod i'r amlwg
- Allbynnau maethynnau
- Newid hinsawdd

CAM GWEITHREDU: Y Tîm Dŵr Daear i roi adborth i Laura Moss, a ofynnodd gwestiwn mewn perthynas â'r adroddiad ar gyflwr dŵr daear yn 2023 ac a oes gan CNC y 122 o ganlyniadau ar gyfer asid perfflworoctanoig (PFOA) ac asid sylffonig perfflwroctan (PFOS) ar gyfer 2023

CAM GWEITHREDU: Y Tîm Dŵr Daear i roi adborth i gwestiwn Gail Davies Walsh, 'A allai CNC gadarnhau pa mor aml a phryd y cafodd y cyfrifyfrau Rheoli Asesu Adnoddau (RAM) eu hadolygu ddiwethaf yng Nghymru? Sut mae trwyddedau tynnu dŵr preifat yn cael eu harchwilio? Pa gyfran sydd wedi cael eu hadolygu?'

Eitem 6 Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Cadarnhawyd y cyfarfod nesaf ar 7 Tachwedd 2024.